<sup>40</sup> *Ibid.*

<sup>41</sup> Awdurdod Hedfan Sifil, *Asesiadau o bŵer marchnata meysydd awyr*, 2012.

<sup>42</sup> *Maes Awyr Caerdydd. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru*, Gorffennaf 2012.

Mae lleoliad Maes Awyr Caerdydd yn fanteisiol gan ei fod yn agos at yr M4 a Chanol Dinas Caerdydd. Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod am drydaneiddio prif lein y Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe, gan gwblhau'r gwaith o drydaneiddio'r lein yn llawn o Paddington ar gost o £600 miliwn. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo hefyd i gyswllt rheilffordd newydd gwerth £500 miliwn i Heathrow sy'n golygu na fydd angen i deithwyr i Heathrow deithio drwy Paddington o 2021 ymlaen. Bydd hyn yn torri hyd at 30 munud oddi ar yr amser teithio o Dde Cymru.<sup>43</sup> Dyma ddau ddatblygiad sy'n mynd i wella cysylltedd Caerdydd a sicrhau bod rhwydwaith trafniadaeth cadarn gan Gymru a Heathrow.

Mae'n bwysig archwilio manteision datblygu Caerdydd fel y chweched derfynfa a chredwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Comisiwn Meysydd Awyr wrth iddynt fynd ati i ystyried y cynlluniau hyn. Fodd bynnag, ni fydd y Comisiwn yn cyflwyno'i adroddiad tan ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015 ac mae'n bwysig gweithredu ymdrechion ar unwaith i gefnogi'r maes awyr. Mae strategaeth y ddogfen hon yn darparu cynllun eglur, tymor byr sy'n seiliedig ar uchelgais hirdymor. Mae gwybod a gaiff Maes Awyr Caerdydd ei ystyried o ddifrif fel y chweched derfynfa yn bwysig, ond rhaid rhoi blaenoriaeth i gefnogi Caerdydd fel maes awyr rhanbarthol cryf.

---

<sup>43</sup> *Newyddion y BBC, 12 Gorffennaf 2012.*

## Pennod 3: Strategaeth Hirdymor

---

**Cred y Ceidwadwyr Cymreig y dylid dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i'r sector preifat. Talodd pob trethdalwr yng Nghymru £38.50 am y buddsoddiad gwreiddiol ym Maes Awyr Caerdydd pan brynwyd y Maes Awyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013. Credwn y dylid dychwelyd y buddsoddiad hwn i drethdalwyr Cymru.**

Wrth inni adfywio Maes Awyr Caerdydd, ein nod hirdymor yw gwerthu'r maes awyr i gwmni preifat am elw a chyflwyno elw'r gwerthiant yn ôl i bocedi trethdalwyr Cymru a gyfrannodd at y pryniant gwreiddiol. Teimlwn mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y trethdalwyr yn cael elw uniongyrchol ar eu buddsoddiad, ac adennill y buddsoddiad y bydd Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ei wneud yn y maes awyr.

Ein gweledigaeth yw sicrhau y gall Maes Awyr Caerdydd gynhyrchu digon o elw unwaith eto i gael ei weld fel buddsoddiad busnes hyfyw. Rydym yn ymwybodol hefyd o'r angen mwy hirdymor i fuddsoddi yn y seilwaith o gwmpas y maes awyr er mwyn gwella cysylltiadau a hwyluso mynediad, gan hybu twf pellach.

Gallai'r trethdalwr elwa o werthiant y maes awyr, naill ai'n uniongyrchol ar ffurf ad-daliad neu drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau allweddol. Pe baem yn dychwelyd yr elw o'r gwerthiant i'r trethdalwr, byddem yn cysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r ffordd orau o weinyddu hyn.

Prif agwedd y strategaeth hirdymor yw cynyddu gwerth y maes awyr. Rydym wedi gosod targed realistig o £208 miliwn, sef pedair gwaith yr hyn a dalodd Llywodraeth Cymru amdano. Mae potensial enfawr gan Gaerdydd i elwa o farchnadoedd newydd gyda'i seilwaith maes awyr cadarn, sy'n cynnwys rhedfa â'r potensial i gynnig hediadau pellter mawr, yn ogystal â'n hymrwymiad i fuddsoddi.

Felly, dylid rhannu'r elw o'r gwerthiant rhwng y trethdalwyr, a fydd yn derbyn elw ar eu buddsoddiad, a buddsoddi yn y seilwaith i hwyluso mynediad i'r maes awyr.

Dangosir yr opsiynau hyn mewn termau real o dan dri maint elw gwahanol. Mae'r meintiau elw hyn yn dangos elw'r trethdalwyr pe bai'r pris gwerthu posibl yn dyblu, yn treblu neu'n pedryblu eu buddsoddiad gwreiddiol, ac ymrwymiad Llywodraeth Geidwadol Gymreig i fuddsoddi yn y seilwaith. Amcangyfrifon yw'r ffigurau isod yn seiliedig ar ffigurau'r pryniant gwreiddiol a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013.

Nifer trethdalwyr Cymru yn y flwyddyn dreth 2012-3 oedd 1,350,000<sup>44</sup>. Mae unrhyw gyfrifiadau sy'n cyfeirio at drethdalwyr Cymru wedi defnyddio'r ffigur hwn.

Mae ffigur 3.1 yn dangos maint ein hymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith, a faint fyddai'r elw i drethdalwyr Cymru pe rhennid yr elw a fyddai'n deillio o werthu Maes Awyr Caerdydd rhwng buddsoddiad yn y seilwaith a difidend i'r trethdalwr.

- Pe gallem bedryblu gwerth Maes Awyr Caerdydd wrth ei werthu i gwmni preifat, byddai'n arwain at werthiant gwerth £208miliwn. Byddai hanner hyn, £104miliwn, yn cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn y seilwaith o gwmpas y maes awyr. Byddai'r £104miliwn arall yn cael ei gyflwyno fel elw i drethdalwyr Cymru o £77.04 y person; dwbl eu buddsoddiad gwreiddiol yn 2013.
- Pe gallem dreblu gwerth y Maes Awyr, drwy werthu am £156miliwn, o dan y model gwario hwn byddem yn buddsoddi £78miliwn yn seilwaith yr ardal gyfagos, ac yn rhoi £78miliwn ym mhoced y trethdalwr, sef £57.78 y person.
- Pe gallem ddyblu gwerth y maes awyr wrth ei werthu, byddai £52 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y seilwaith a byddai pob trethdalwr yn derbyn £38.52, sef eu buddsoddiad gwreiddiol.

---

<sup>44</sup> *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru*, Tachwedd 2012, t.162.

*Ffigur 3.1- hanner yr elw'n mynd i'r trethdalwr, hanner i'w fuddsoddi yn y seilwaith*

<b>Amcanestyniad o werth y gwerthiant</b>	<b>Difidend i'r trethdalwr (cyfanswm)</b>	<b>Difidend i drethdalwyr Cymru (y person)</b>	<b>Gwerth yr ymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith</b>
£104 miliwn	£52 miliwn	<b>£38.52</b>	<b>£52 miliwn</b>
£156 miliwn	£78 miliwn	<b>£57.78</b>	<b>£78 miliwn</b>
£208 miliwn	£104 miliwn	<b>£77.04</b>	<b>£104 miliwn</b>

Dim ond un syniad ar gyfer y maes awyr yn y dyfodol yw rhannu elw'r gwerthiant yn gyfartal. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Geidwadol Gymreig yn ymrwymo i ddychwelyd y £38.50 a dalwyd gan bob trethdalwr yng Nghymru ym mis Mawrth 2013.

Mae'r opsiwn hwn yn ddeniadol nid yn unig i'r trethdalwr, gan y byddem yn cynyddu ei fuddsoddiad gwreiddiol, ond byddai ymrwymiad i fuddsoddi yn y seilwaith yn ddeniadol hefyd i fusnesau preifat sy'n awyddus i fuddsoddi yn y maes awyr. Gyda'r arian hwn, byddem yn ymrwymo i gefnogi a datblygu'r maes awyr a'r cysylltiadau seilwaith o'i gwmpas ar ôl iddo gael ei breifateiddio. Mae'n hanfodol i'r Llywodraeth weithio gyda'r sector preifat er mwyn sicrhau twf Maes Awyr Caerdydd.

## Pennod 4: Cynllun pum pwynt ar gyfer twf

---

Bydd y Bennod hon yn manylu ar ein strategaeth ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn y tymor byr sy'n hollbwysig er mwyn cyrraedd ein nod hirdymor fel y'i hamlinellwyd ym Mhennod 3. Cyflwynir y strategaeth tymor byr fel cynllun pum pwynt ar gyfer twf. Mae'n creu strategaeth gydlynus sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau bod yr heriau sy'n wynebu Maes Awyr Caerdydd yn cael eu datrys. Dylid nodi bod pob elfen yr un mor bwysig a hanfodol wrth fynd ati i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd.

Wrth gynhyrchu'r ddogfen hon, rydym wedi ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y maes awyr ei hun, arbenigwyr ym maes hedfan ac economegwyr trafndiaeth. Yn bennaf oll rydym wedi cysylltu hefyd â chwmnïau hedfan; un sy'n gweithredu yn y Maes Awyr ar hyn o bryd ac un nad yw'n gweithredu yng Nghymru.

**Wizz Air** – Cysylltwyd â chwmni hedfan mwyaf Canol a Dwyrain Ewrop sef Wizz Air, sy'n gweithredu nifer sylweddol o deithiau awyr i'r DU, er nad ydynt yn gweithredu yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Gofynnwyd iddynt yn benodol pa feini prawf allweddol a ddefnyddiant i asesu pa feysydd awyr i'w dewis. Cyfeiriodd y cwmni at gostau maes awyr isel, dalgylch deniadol a chyfleusterau maes awyr effeithlon.

**Flybe** – Buom yn sgwrsio â Flybe hefyd, sef cwmni hedfan mwyaf Caerdydd, gan ofyn iddynt beth oedd yn eu denu i Gaerdydd. Dywedodd siaradwr ar ran Flybe fod agwedd ranbarthol Maes Awyr Caerdydd wedi eu denu.

***“Flybe yw'r cwmni awyr rhanbarthol mwyaf yn y DU ac mae Caerdydd yn ganolfan ranbarthol bwysig, felly roedd hi'n fuddiol i ni ymgysylltu â marchnad ranbarthol De Cymru”<sup>45</sup>.***

Roedd Flybe hefyd yn teimlo bod bwch yn y farchnad ar eu pwynt mynediad i wasanaethau rhanbarthol a domestig, ac yn allweddol, fod marchnad ar gael i'r gwasanaethau hyn.

---

<sup>45</sup> Gwybodaeth gan Flybe, o sgwrs ar 3 Mai 2013.

Ar ôl rhyngweithio ag aelodau blaenllaw o'r farchnad meysydd awyr a chwmnïau hedfan, er bod y weledigaeth ar gyfer twf maes awyr Caerdydd yn brosiect o sylwedd, deallwn fod strategaethau tymor byr a hirdymor y gellir eu rhoi ar waith.

## **Pwynt 1 – Rôl cwmnïau hedfan**

Nid y maes awyr ei hun yw'r ateb. Y cwmnïau hedfan sy'n sicrhau llwyddiant awyr, eto i gyd cred llawer nad yw hyn wedi cael digon o sylw. Yn wir, roedd pawb y daethom i gysylltiad â nhw yn cytuno bod cwmnïau hedfan yn allweddol i adfywiad Maes Awyr Caerdydd. Fel y pwysleisiodd siaradwr ar ran Flybe:

***“Y cwmnïau hedfan yw'r allwedd, nid y maes awyr”.***<sup>46</sup>

Busnes yw Maes Awyr Caerdydd yn gyntaf a dylid ei drin felly gyda phwyslais cryf ar ddefnyddwyr; nid dim ond y teithwyr, ond y cwmnïau hedfan eu hunain.

Mae'n rhaid i unrhyw sbardun i wella cystadleurwydd fynd law yn llaw â strategaeth ar gyfer datblygu'r maes awyr. Er ein bod yn gwerthfawrogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i benodi tasglu'n ddiweddar, camgymeriad oedd peidio â chynnwys cynrychiolydd o gwmni hedfan masnachol yn y gwaith o reoli'r maes awyr neu'n bresennol yng nghyfarfodydd y tasglu. Gellid hybu hyder y maes awyr a'i deithwyr trwy gael cefnogaeth enwau mawr rhyngwladol y cwmnïau hedfan, gan wella cyhoeddusrwydd a chysylltiadau ar gyfer y maes awyr ledled y byd.

Byddem yn annog y maes awyr i benodi aelod blaenllaw o'r diwydiant cwmnïau hedfan i ymuno â bwrdd rheoli'r maes awyr. Ei rôl fyddai hyrwyddo a chynrychioli'r maes awyr ar y llwyfan rhyngwladol, gan greu swydd newydd 'Cyfarwyddwr y Cwmnïau Hedfan'. Byddai'r unigolyn hwn yn gweithio gydag aelodau eraill o'r staff rheoli yn y maes awyr gan annog trafodaeth rhwng y maes awyr a'r cwmnïau hedfan.

Wrth wynebu'r dyfodol, rhaid i'r maes awyr roi blaenoriaeth ar ddenu mwy o gyrchfannau a chwmnïau hedfan, a thrwy benodi 'Cyfarwyddwr y

---

<sup>46</sup> Gwybodaeth gan Flybe, o sgwrs ar 3 Mai 2013.



Cwmniau Hedfan', bydd cyfle i ymgysylltu â chwmniau hedfan a hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan hyfyw.

Byddai rôl gynyddol cwmniau hedfan hefyd yn cefnogi cynllun busnes penodol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd o ran targedu marchnadoedd ar gyfer twf. Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen dalgylch Maes Awyr Caerdydd 24% yn is na dalgylch Maes Awyr Bryste.<sup>47</sup> Golyga hyn fod prisiau isel a chystadleuol yn allweddol ar gyfer cynyddu nifer y teithwyr.

Mae angen i Faes Awyr Caerdydd ystyried denu cwmniau hedfan rhad er mwyn creu marchnad rad a fydd yn gwasanaethu'r teithwyr presennol sy'n cael eu denu i feysydd awyr Bryste a Llundain. Byddai 'Cyfarwyddwr y Cwmniau Hedfan' yn gallu hyrwyddo Caerdydd ymhlith cwmniau hedfan eraill, gan ennyn hyder a diddordeb cwmniau hedfan rhad.

Byddai'r Cyfarwyddwr hefyd yn effeithiol yn y gymuned fusnes o safbwynt hyrwyddo a rhwydweithio. Byddai hyn yn annog y rhwydwaith busnes i ddefnyddio Maes Awyr Caerdydd, a thrwy gymorth system wobrwyo (sy'n cael ei disgrifio ym Mhwynt 3), gellid annog rhwydwaith o deithwyr busnes rheolaidd. Byddai'r rhwydwaith hwn yn ddeniadol i gwmniau hedfan sy'n darparu ar gyfer busnesau, a thrwy gymorth Cyfarwyddwr y Cwmniau Hedfan, gellid denu cwmniau hedfan a llwybrau hedfan newydd i Faes Awyr Caerdydd.

---

<sup>47</sup> *Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.*

## Pwynt 2 - Toll Teithwyr Awyr (APD)

Mae pob cwmni awyr yn cytuno bod cost yn ffactor canolog wrth edrych ar leoliad meysydd awyr. Mae angen i Faes Awyr Caerdydd arddangos costau cystadleuol er mwyn denu cwmnïau hedfan a'u cadw. Dyma pam y byddem yn rhoi pwyslais yn y tymor byr ar sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r costau cynyddol sy'n wynebu cwmnïau hedfan.

Gall Caerdydd gystadlu â meysydd awyr fel Bryste. Gallai'r dalgyrch ehangu, byddai'n hawdd gwella cysylltedd ac nid oes cyfyngiadau ar ei gapasiti. Ond ni all hyn ddigwydd heb leihau costau i gwmnïau hedfan.

Fel rhan o'n strategaeth o fesurau tymor byr ar gyfer cynyddu nifer y teithwyr a dewis o lwybrau hedfan, rydym wedi archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio toll teithwyr awyr fel sbardun ar gyfer cynyddu cystadleurwydd Maes Awyr Caerdydd pe bai'r doll yn cael ei datganoli yn dilyn argymhellion Comisiwn Silk<sup>48</sup>. Byddai hyn yn lleihau'r costau cychwynol i gwmnïau hedfan gan greu potensial ar gyfer denu rhagor o gwmnïau hedfan i'r maes awyr a chynyddu'r dewis o lwybrau hedfan yn sgil hynny. Fel y dywedodd Flybe:

***“Rhaid i gwmnïau hedfan gael eu cefnogi'n effeithiol a dylai perchnogion fynd i'r afael â materion allweddol fel y costau sy'n gysylltiedig â ffioedd, effeithlonrwydd, mynediad i'r maes awyr a threth, yn enwedig Toll Teithwyr Awyr y gellid eu defnyddio i gynnal gwasanaeth domestig”.***<sup>49</sup>

### Cyd-destun

Toll ar deithwyr ar awyrennau o feysydd awyr y DU yw'r APD, a chafodd ei hymestyn yn ddiweddar i gynnwys pob teithiwr sy'n cael ei gludo ar awyren sy'n 5.7 tonnau neu'n fwy. Cyfanswm refeniw'r DU o'r doll yn 2011-12 oedd £2.6 biliwn. Amcangyfrifir bod refeniw 2012-3 oddeutu £2.8 biliwn.<sup>50</sup> Caiff APD ei phennu fel y gwelir yn ffigur 4.1. Caiff ei chyfrifo yn ôl nifer y milltiroedd y mae teithwyr yn eu hedfan, mewn pedwar band.

<sup>48</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Tachwedd 2012, t70.

<sup>49</sup> Gwybodaeth gan Flybe, 3 Mai 2013.

<sup>50</sup> Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. *Economic and Fiscal Outlook*, 2013.

*Ffigur 4.1- Bandiau cyfredol yr APD*

Bandiau	Cyfradd Is			Cyfradd Safonol			Cyfradd Uwch
	1/4/11	1/4/12	1/4/13	1/4/11	1/4/12	1/4/13	1/4/13
Band A (0-2,000)	£12	£13	£13	£24	£26	£26	£52
Band B (2,001-4,000)	£60	£65	£67	£120	£130	£134	£268
Band C (4,001-6,000)	£75	£81	£83	£150	£162	£166	£332
Band D (dros 6,000)	£85	£92	£94	£170	£184	£188	£376

(Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM)

Nid yw'r cyfrifon hyn yn datgelu beth yw refeniw Cymru o'r ADP fel cyfraniad i gyfanswm y DU am fod cwmnïau hedfan yn darparu APD i Drysorlys y DU mewn un cyfanswm. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon i'w cael, ac er nad ydynt yn fanwl gywir, gellir amcangyfrif faint yw cyfraniad Cymru i APD y DU.

Amcangyfrifodd Comisiwn Silk Rhan 1 fod cyfraniad Cymru i APD y DU oddeutu £7.5 miliwn neu 0.35%.<sup>51</sup> Roedd tystiolaeth Maes Awyr Caerdydd i Gomisiwn Silk yn amcangyfrif bod diwydiant hedfan Cymru yn cyfrannu tua £8 miliwn at refeniw APD y DU o £2.6 biliwn.<sup>52</sup>

Fel yr amlinellwyd mewn penodau blaenorol, mae'r gostyngiad yn nifer y teithwyr drwy Faes Awyr Caerdydd a phroblemau hygyrchedd yn cyfyngu ar ei allu i gystadlu, hyd yn oed ar lefel ranbarthol. Caerdydd yw'r unig faes awyr masnachol yng Nghymru sy'n codi APD ar ei deithwyr. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae'r APD yn cynnig sbardun diddorol y gellid ei ddefnyddio i ddenu cwmnïau hedfan, llwybrau hedfan a theithwyr newydd.

## **Gogledd Iwerddon**

Ar ddiwedd 2011, cyhoeddodd gweithrediaeth Gogledd Iwerddon y byddai'r APD i deithwyr ar hediadau uniongyrchol pellter mawr o

<sup>51</sup> *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru*, Tachwedd 2012, t67.

<sup>52</sup> *Ibid*, t68.

Ogledd Iwerddon yn gostwng i'r gyfradd isaf. O 1 Ionawr 2013, cafodd yr APD ei datganoli i Lywodraeth Gogledd Iwerddon a'i gosod ar £0.<sup>53</sup>

Rhodddwyd hyn ar waith er mwyn cynnal cysylltiad Gogledd Iwerddon â Gogledd America mewn marchnad gystadleuol.

Mae Cyllid a Thollau EM wedi cyfrifo cost isel i'r polisi hwn ar gyfer 2011-12 a 2012-13 a cholled o £5m y flwyddyn nes eu rhagamcan olaf ar gyfer 2016-17 fel y gwelir yn ffigur 4.2.

*Ffigur 4.2- Cyfrifiadau Cyllid a Thollau EM o gost APD Gogledd Iwerddon*

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Effaith ar y Trysorlys (£m)	dibwys	dibwys	-5	-5	-5	-5

(Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM)

Hefyd, roedd Cyllid a Thollau EM yn rhagweld cynnydd bychan yn nifer y teithwyr a fyddai'n gwrthbwyso cost y mesur ar y cychwyn, gan ei gwneud yn ddibwys.

Mae effeithiau datganoli a diddymu APD a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2013 eto i'w rhyddhau'n swyddogol, ond mae newid Gogledd Iwerddon i weinyddiaeth yr APD yn 2011 yn enghraifft dda o newid yr APD er budd ac elw rhanbarthol, gan wrthbwyso'r effaith ar y Trysorlys.

## **Toll Teithwyr Awyr a Chymru**

Ystyrir bod APD y DU yn uchel. Mewn cymhariaeth, mae Iwerddon yn codi tâl ar gyfradd safonol o €3 y teithiwr ar hyn o bryd.<sup>54</sup> Cyflwynodd yr Almaen ffurf ar APD yn 2011, sy'n codi tâl o tua €8 ar deithwyr hediadau pellter byr.<sup>55</sup>

Credwn fod hyn, a'r dystiolaeth a welwyd o Ogledd Iwerddon, yn adeiladu'r achos dros gyflwyno ysgogiad polisi i alluogi Cymru i elwa i'r eithaf o'r budd y mae'n ei gael o'r APD. Credwn fod hwn yn faes trafod pwysig ac rydym wedi disgrifio tri opsiwn posibl ar gyfer yr APD fel a ganlyn.

<sup>53</sup> *Cyllid a Thollau EM, cyfraddau Gogledd Iwerddon, 2013*

<sup>54</sup> *Ffigurau Treth a Thollau Iwerddon*

<sup>55</sup> *Ffigur Gweinyddiaeth Ffederal Cyllid yr Almaen*

## **Opsiwn 1 – Creu band newydd ar gyfer teithiau domestig a phellter byr**

Ar hyn o bryd, cyfrifir APD y DU yn ôl pellter mewn pedwar band. Y gost isaf yw Band A sy'n cynnwys hediadau o'r DU am bellter llai na 2,000 o filltiroedd. Mae'r pellter hwn yn gymharol hir, ac yn effeithio'n arbennig ar gost hediadau domestig. O fewn hediadau domestig y DU, bydd yn rhaid i deithwyr dalu'r APD ddwywaith. Un opsiwn posibl fyddai creu band llai a fyddai'n effeithio ar hediadau domestig a phellter byr o dan 500 milltir.

*Ffigur 4.3- Bandiau rhagamcanol ar gyfer APD opsiwn 1*

<b>Bandiau (pellter bras mewn milltiroedd o'r DU)</b>	<b>Tâl cyfredol</b>	<b>Tâl rhagamcanol ar gyfer Cymru</b>
Band A (0-500)	£13	£0
Band B (501-2,000)	£13	£13
Band C (2,001-4,000)	£67	£67
Band D (4,001-6,000)	£83	£83
Band E (6,001+)	£94	£94

Mae'r tabl uchod yn dangos taliadau APD posibl opsiwn 1. Er mai dim ond y cam cyntaf yn y broses o ddefnyddio'r APD fel ysgogiad fyddai hyn, byddai effaith uniongyrchol enfawr ar hediadau domestig ac mae'n faes y mae Flybe, cwmni hedfan mwyaf Maes Awyr Caerdydd ar hyn o bryd, yn arbenigo ynddo.

Drwy ddefnyddio ffigurau teithwyr ar gyfer 10 cyrchfan fwyaf poblogaidd Maes Awyr Caerdydd yn 2011, gellir amcangyfrif bod cost y band newydd hwn yn £4.58 miliwn y flwyddyn, ond mae'n bwysig nodi bod nifer y teithwyr wedi gostwng yn sylweddol yn 2013, felly bydd y gost yn is yn unol â hynny. Gan fod Cyllid a Thollau EM wedi asesu bod cost mesur tebyg, ond i'r gwrthwyneb, yng Ngogledd Iwerddon yn ddibwys, gellid rhoi ymgynghoriad ar waith i ddadansoddi cost a budd cyn gwneud unrhyw addasiadau mawr i'r bandiau.

## **Opsiwn 2 – Seibiant APD**

Mae'r ail opsiwn yn argymhell y gellid atal yr APD yng Nghymru am gyfnod cyfyngedig (e.e. cyfnod o bum mlynedd) i gymell cwmnïau hedfan newydd i ddod i Faes Awyr Caerdydd. Byddai Seibiant APD hefyd yn rhoi digon o amser i gwmnïau hedfan gynhyrchu sylfaen gwsmeriaid ddibynadwy. Byddai hyn yn cynyddu nifer y teithwyr a hefyd yn gwella'r dewis o lwybrau hedfan ac o ganlyniad, yn creu mwy o alw i fynd i'r afael â buddsoddi yn y seilwaith. Gan ddefnyddio amcangyfrif Comisiwn Silk, byddai hyn yn costio llai na £7.5 miliwn y flwyddyn (o ystyried y gostyngiad cyfredol yn nifer y teithwyr), rhan fach iawn o'r referniw sy'n cael ei godi ledled y DU o'r APD.

## **Opsiwn 3 – APD Pellter Mawr**

Er bod y farchnad ar gyfer teithiau pellter mawr yng Nghaerdydd yn llai, mae potensial i'w hehangu, yn enwedig gan nad oes unrhyw gyfyngiadau rhedfa yng Nghaerdydd, yn wahanol i'w gystadleuydd agosaf ym Mryste. Dechreuodd Gogledd Iwerddon y broses o ddatganoli'r APD mewn perthynas â theithiau pellter mawr er mwyn meithrin eu cysylltiadau ag America am gost is, cyn i'r doll gael ei datganoli'n llawn yn fuan ar ôl profi hyfywedd y cynllun.

Byddai'r gost o ddatganoli APD pellter mawr yn fychan o gymharu â'r doll yn ei chyfanrwydd. Yn 2011, amcangyfrifwn fod APD pellter mawr wedi creu referniw o £1 miliwn o'r cyfanswm o £7.5 miliwn yng Nghymru. Un fantais o ddatganoli APD pellter mawr yw y gallai fod yn ffordd bosibl o ddenu teithiau pellter mawr i Gaerdydd a lleddfu problemau capasiti cyfredol meysydd awyr yn Ne-ddwyrain Lloegr. Cefnogodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru'r argymhelliad i ddatganoli'r APD pellter mawr drwy ddatgan "Rydym yn argymhell bod y Doll Teithwyr Awyr yn cael ei datganoli ar gyfer teithiau awyr hir uniongyrchol yn gyntaf".<sup>56</sup>

Yn ymarferol, byddai datganoli'r APD pellter mawr yn golygu datganoli bandiau B-D, gan ostwng costau'r bandiau hyn. Fel y dengys tabl 4.4, bydd effaith hyn ar gostau hedfan teithwyr yn ddramatig, ond byddai'r gost i'r Llywodraeth yn fach oherwydd y cyfraddau isel sy'n mynd ar deithiau pellter mawr o Gymru.

---

<sup>56</sup> *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru*, Tachwedd 2012.

*Ffigur 4.4- bandiau rhagamcanol ar ôl datganoli APD pellter mawr*

<b>Bandiau (pellter bras mewn milltiroedd o'r DU)</b>	<b>Tâl cyfredol</b>	<b>Tâl rhagamcanol ar gyfer Cymru</b>
Band B (0-2,000)	£13	£13
Band C (2,001-4,000)	£67	£0
Band D (4,001-6,000)	£83	£0
Band E (6,001+)	£94	£0

Er enghraifft, bydd teithiwr sy'n teithio 6,001 milltir o Gaerdydd yn talu £94 yn llai pe bai'r doll pellter mawr wedi'i datganoli. Dyma gymhelliant sylweddol i hedfan o Gaerdydd. Bydd costau is yn denu cwmnïau hedfan a theithwyr, gan wneud Maes Awyr Caerdydd yn opsiwn ffafriol ar gyfer teithiau pellter mawr.

Mae tystiolaeth a anfonwyd at y Comisiwn Meysydd Awyr gan grŵp Western Gateway yn galw am ddatganoli APD pellter mawr gan ychwanegu amcangyfrif y gallai'r maes awyr ddenu dros 4 miliwn o deithwyr y flwyddyn erbyn 2030 pe câi hyn ei weithredu.<sup>57</sup>

Mae'r dadansoddiad hwn yn cyd-fynd â'r drafodaeth ynglŷn â Chaerdydd fel Terfynfa'r Iwerydd. Meysydd awyr y De-ddwyrain sydd wedi arfer cynnig teithiau awyr pellter mawr, ac maent bron â chyrraedd eu capasiti llawn. Gan fod bwriad i drydaneiddio'r lein rhwng Llundain ac Abertawe, gall Caerdydd gynnig ei hun fel Terfynfa Iwerydd bosibl pe bai'r APD pellter mawr yn cael ei datganoli.

<sup>57</sup> *Wales Online. Cardiff Airport passenger numbers would exceed four million by 2030 if long haul APD is abolished, 20 Mai 2013.*

## Pwynt 3 - Marchnata

Mae marchnata'n allweddol i allu Maes Awyr Caerdydd i gystadlu ar y llwyfan rhyngwladol o fewn y farchnad dwristiaeth a thrwy farchnata'r maes awyr fel canolfan gysylltedd ar gyfer busnesau sy'n chwilio am leoliadau.

Er bod y farchnad dwristiaeth yng Nghymru wrth galon yr economi, nid yw'r maes awyr yn ganolog i'r farchnad honno ar hyn o bryd. Cyfrannodd twristiaeth £1.84 biliwn o werth ychwanegol gros at economi Cymru yn 2011, ac roedd 8.3% o weithlu Cymru yn ddibynnol ar dwristiaeth rhwng 2007 a 2011.<sup>58</sup> Fodd bynnag, yn 2012 disgynnodd nifer ymwelwyr tramor â Chymru i 854,000 o uchafbwynt o 1 miliwn yn 2008.<sup>59</sup> Er bod marchnad amlwg i dwristiaeth yng Nghymru, mae angen ei meithrin yn effeithiol cyn iddi ddirywio ymhellach. Credwn y gall Maes Awyr Caerdydd elwa ar rwydwaith presennol y farchnad dwristiaeth yn ogystal â chyfrannu ato.

Mae'n amlwg bod angen denu rhagor o bobl i Gymru drwy Faes Awyr Caerdydd a dylai'r gwaith o farchnata'r Maes Awyr anelu at ddwy gynulleidfa darged; twristiaid a busnesau.

## Cyllideb Twristiaeth

Cyllideb twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/2014 yw £13.98 miliwn<sup>60</sup>. Credwn fod yn rhaid defnyddio'r gyllideb hon yn effeithiol i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd fel porth i mewn i Gymru. Y gyllideb gyfatebol ar gyfer yr Alban yw £50.7 miliwn; mae hyn yn tanlinellu'r pwyslais a roddir ar strategaethau twristiaeth effeithiol yn yr Alban.

Wrth ymateb i gwestiwn gan arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, Andrew RT Davies, manylodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, Edwina Hart, ar wariant cyfredol y Llywodraeth ar fathau penodol o hysbysebu.<sup>61</sup> Ar hyn o bryd, gwerir £3.1 miliwn ar hysbysebion teledu yn y DU, Gweriniaeth Iwerddon a Chatalonia, sy'n targedu'r farchnad 45+ oed; pedwar hysbyseb radio ar Classic FM a chwaraewyd 1,040 gwaith ar gost o £117,871.44, ac eleni,

<sup>58</sup> Jones, C. *The Welsh Tourism Economy in 2011: Summary Results from the Tourism Satellite Account for Wales*. Caerdydd: Uned Ymchwil i Economi Cymru, 2012.

<sup>59</sup> *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Overseas visitors to the UK 2005-12*, 2013.

<sup>60</sup> *Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 64576*, 22 Ebrill 2013

<sup>61</sup> *Gwybodaeth yn sgil Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 62300-62305*, 28 Chwefror 2013.



bydd hysbysebion print i'w gweld mewn 11 o gyhoeddiadau ar gost o £124,020. Hefyd, yr unig faes awyr y mae Llywodraeth Cymru yn prynu gofod hysbysebu ynddo ar hyn o bryd yw maes awyr Caerdydd.<sup>62</sup>

Mae cael strategaeth farchnata ddomestig gydlynus yn hollbwysig, ac er bod y costau a ddisgrifiwyd uchod wedi cyfrannu at allbwn hysbysebu domestig, credwn mai ychydig iawn o effaith a fu ar Faes Awyr Caerdydd, a chaiff hyn ei amlygu'n eglur yn y gostyngiad yn nifer y teithwyr.

## Twristiaeth

Mae angen marchnata Maes Awyr Caerdydd yn benodol fel 'porth' i Gymru. Bydd cynyddu nifer y teithwyr yng Nghaerdydd yn hybu niferoedd twristiaid ledled Cymru. Caiff hyn ei wneud drwy greu dewis o lwybrau hedfan newydd ond rhaid marchnata'n effeithiol ymhlith cynulleidfaoedd targed o dwristiaid er mwyn creu'r galw sydd ei angen i hwyluso'r broses.

Mae targedu marchnadoedd rhyngwladol penodol yn fwy effeithiol yn elfen hollbwysig o'n cynllun ar gyfer twf. Un ffactor allweddol fydd llwybr hedfan sefydledig KLM o Gaerdydd i Faes Awyr Schiphol Amsterdam. Y llwybr KLM presennol yw'r gwasanaeth mwyaf llwyddiannus allan o Gaerdydd,<sup>63</sup> mae hyfywedd Schiphol fel canolfan ryngwladol gystal â Heathrow. Felly, mae'n hawdd i deithwyr o Gymru ddefnyddio Schiphol ar gyfer teithiau pellter mawr gan gychwyn yng Nghaerdydd, gydag arhosiad byr yn yr Iseldiroedd, a'r un fath i deithwyr sy'n dod i Gymru.

Mae Schiphol yn darparu gwasanaeth ar gyfer y farchnad Asiaidd, sy'n ehangu'n gyflym, gan hedfan i saith cyrchfan yn Tsieina. Mae pedwar o'r cyrchfannau hyn heb unrhyw wasanaeth ar hyn o bryd o unrhyw faes awyr yn y DU. Mae capasiti enfawr yng Nghymru ar gyfer twristiaid Tsieineaidd. Rhwng 2011 a 2012, cododd gwariant ymwelwyr tramor o Tsieina yng Nghymru o £7 miliwn i £21 miliwn.<sup>64</sup> Mae angen i ni gofleidio'r potensial o ymwelwyr o farchnadoedd sy'n datblygu a gwella'r potensial drwy gynnal ymgyrchoedd effeithiol yn y gwledydd hynny. Fel hyn, gallem hyrwyddo Cymru i farchnadoedd Tsieina a

<sup>62</sup> *Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 62115*, 6 Chwefror 2013.

<sup>63</sup> *Awdurdod Hedfan Sifil, Ystadegau meysydd awyr*, 2012.

<sup>64</sup> *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Overseas visitors to the UK 2005-12*, 2013.

hysbysebu llwybr hedfan i Faes Awyr Caerdydd o'r gwledydd hynny drwy Schiphol Amsterdam. Byddem yn sicrhau bod y gyllideb gyfredol ar gyfer hysbysebion tramor yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn ystyried manteision marchnad ddwyreiniol a'r cysylltiad presennol â Schiphol. Credwn y byddai'r elw a ddeuai drwy gyhoeddusrwydd effeithiol yn mwy na gwneud iawn am unrhyw gynnydd cychwynol yn y gyllideb farchnata.

Dim ond un o'r marchnadoedd tramor yw Tsieina y gellid eu denu'n fwy effeithiol gan gynyddu nifer ymwelwyr i Gymru ac yn sgil hynny, i Faes Awyr Caerdydd. Wrth greu mwy o alw drwy gynyddu nifer y teithwyr drwy'r maes awyr, daw hyn i sylw'r cwmnïau hedfan, gan arwain at gynyddu'r dewis o lwybrau hedfan.

Mae'n amlwg y byddai hyn yn gam cyntaf o safbwynt datblygu dewis o lwybrau hedfan ar gyfer Caerdydd. Credwn y gall y maes awyr gystadlu'n rhyngwladol, ac i wneud hyn ni ddylem ddibynnu ar feysydd awyr rhyngwladol eraill ar gyfer cysylltiadau. Ond fel cam cyntaf yn y broses o gynyddu'r dewis o lwybrau hedfan a nifer teithwyr, mae'n strategaeth ymarferol ag iddi botensial gwych. Bydd manteisio ar lwybrau cysylltu fel y rhain yn gwthio Maes Awyr Caerdydd i sefyllfa lle gall ddatblygu ei lwybrau hedfan pellter mawr rheolaidd ei hun ac elwa ar farchnadoedd newydd.

## **Busnes**

Er bod potensial enfawr i fusnesau rhyngwladol sefydlu yng Nghymru, mae cysylltedd yn elfen ganolog i fewnfuddsoddwyr. Yn ôl tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Fewnfuddsoddi, mae cysylltiadau trafndiaeth effeithiol o'r pwys mwyaf. Dywedodd yr arbenigwr ar drafndiaeth, yr Athro Stuart Cole, fod trafndiaeth bob amser wedi bod yn un o'r meini prawf arwyddocaol wrth wneud penderfyniadau ynghylch mewnfuddsoddi.<sup>65</sup>

Mae maes awyr rhyngwladol sy'n darparu llwybrau hedfan i ac o gyrchfannau busnes allweddol yn ystyriaeth ganolog wrth fewnfuddsoddi. Ar hyn o bryd, nid yw Maes Awyr Caerdydd yn cynnig unrhyw wasanaethau uniongyrchol i gyrchfan fusnes Frankfurt. Mae trosiant Maes Awyr Frankfurt dros 55 miliwn y flwyddyn a dyma'r 9fed

---

<sup>65</sup> *Y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Inward Investment: Volume 1*, Ionawr 2012.

maes awyr mwyaf yn y byd o ran nifer teithwyr.<sup>66</sup> Fel canolfan ariannol fyd-eang, mae Frankfurt yn dibynnu ar ei faes awyr ffyniannus ar gyfer ei fusnes. Byddai cysylltiad rhwng Caerdydd a Frankfurt yn fanteisiol. Mae Ardal Fenter Caerdydd yn canolbwyntio ar greu Ardal Fusnes Ganolog ar gyfer Cymru sy'n dibynnu ar gysylltiadau effeithiol i ganolfannau ariannol mwy o faint. Byddai Frankfurt, sy'n gartref i Fanc Canolog Ewrop, yn gyswilt allweddol ac mae'n hanfodol felly bod Maes Awyr Caerdydd yn manteisio ar y galw hwn.

Credwn fod yn rhaid i sector busnes Cymru gefnogi Maes Awyr Caerdydd a chreu'r hyder sydd ei angen yn ddirfawr ar gyfer symud ymlaen a chystadlu'n rhyngwladol.

Mae hyder yn magu hyder. Gyda Chyfarwyddwr y Cwmnïau Hedfan yn cyflawni rôl allweddol ar gyfer y maes awyr, gellid creu cysylltiadau gwell â'r gymuned fusnes yng Nghymru a'r De-ddwyrain. Byddem yn defnyddio system wobrwyo ar gyfer teithwyr busnes rheolaidd ym Maes Awyr Caerdydd, yn cynnwys gwasanaethau fel man derbyn cyflym (yn dibynnu ar y cwmni hedfan), manau parcio dynodedig a lolfafusnes i aelodau. Gellid rhoi cyhoeddusrwydd sylweddol i'r system wobrwyo hon ymhlith y sector busnes a byddai'n gwella profiadau teithwyr busnes ym Maes Awyr Caerdydd, gan sicrhau eu bod yn dychwelyd.

---

<sup>66</sup> *Cyngor Meysydd Awyr Rhyngwladol. World airport traffic report, 2012.*

## Pwynt 4 – Seilwaith

Mae seilwaith yn broblem sylfaenol sy'n wynebu Maes Awyr Caerdydd a bydd yn rhan ganolog o'n strategaeth hirdymor. Credwn y bydd nifer y teithwyr yn cynyddu o ganlyniad i'n strategaeth ar gyfer twf ac o ganlyniad, bydd y galw am fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus effeithiol hefyd yn cynyddu. Gyda'r elw o werthu'r maes awyr, bwriadwn greu cysylltedd i gystadlu â meysydd awyr gorau'r DU. Yn y cyfamser, credwn y gellid gwella trafndiaeth gyhoeddus o fewn y seilwaith presennol.

Nid yw Maes Awyr Caerdydd yn cymharu â'i gystadleuwyr o safbwynt mynediad. Gan fod cyfyngiadau seilwaith o ran mynediad ar hyd y ffordd i Faes Awyr Bryste, darperir bws cyflym o ganol Bryste i'r maes awyr sy'n rhedeg 24 awr y dydd bob deng munud ar adegau brig. Mae'r tâl am y gwasanaeth yn gymharol uchel gyda thocyn dwy ffordd i oedolyn yn costio £11, ond oherwydd y galw uchel am y gwasanaeth ac am fod dewisiadau eraill yn ddrotach, mae'r prisiau hyn yn gystadleuol. Yn 2012, defnyddiodd 690,373 o deithwyr y gwasanaeth hwn.<sup>67</sup> Yn yr un modd, mae Maes Awyr John Lennon Lerpwl yn elwa o wasanaeth bws penodol bob hanner awr o Ganol Dinas Lerpwl.

Yn y tymor byr mae angen cysylltiad bws mwy effeithlon a rheolaidd ar Faes Awyr Caerdydd o leiaf ddwywaith yr awr ar adegau brig o Ganol Dinas Caerdydd. Hefyd mae bysiau Greyhound bellach yn cynnig gwasanaeth rhwng De Cymru a Maes Awyr Bryste sy'n galw heibio i Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chasnewydd. Nid oes gwasanaeth cyfatebol ar gael ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Dylid cynnig gwasanaeth tebyg ar gyfer Maes Awyr Caerdydd sy'n cael ei redeg gan weithredwr preifat.

Gwasanaeth bws rheolaidd o Ganol Dinas Caerdydd yw'r cam cyntaf i wella cysylltedd â'r maes awyr. Byddai gofyn gwneud buddsoddiad cychwynol eithaf sylweddol yn y gwasanaeth i dalu costau sefydlu'r busnes ond byddai unrhyw fuddsoddiad yn fanteisiol i'r maes awyr. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n rhoi cymhorthdal o £100,000 tuag at gostau'r cysylltiad 905 o orsaf y Rhws i'r maes awyr, taith o lai na 2.5 milltir. Credwn y byddai'r buddsoddiad hwn yn well fel rhan o wasanaeth rheolaidd o Ganol Dinas Caerdydd, er enghraifft cynyddu'r gwasanaeth X91 o unwaith bob dwy awr i ddwywaith yr awr.

<sup>67</sup> Ffigurau Maes Awyr Bryste , o sgwrs 15 Mai 2013.

Mae brandio a hyrwyddo yn bwysig hefyd er mwyn gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd 9% o'r teithwyr sy'n teithio i Faes Awyr Caerdydd sy'n mynd ar fws.<sup>68</sup> Byddem yn anelu i ddyblu'r ffigwr hwn trwy gynnig opsiwn gwasanaeth bws amlach.

---

<sup>68</sup> *Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.*

## Pwynt 5 – Cludo nwyddau

Bu gostyngiad o 98% yn y nwyddau a gludwyd mewn awyrennau drwy Faes Awyr Caerdydd rhwng 2008 a 2010.<sup>69</sup> Y rheswm pennaf am hyn oedd colli TNT, a arferai gynnal busnes parseli o Gaerdydd i Liege, cyn symud i Faes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr.<sup>70</sup> Mae cyfleusterau cludo nwyddau a galw am wasanaethau cludo nwyddau yn asedau gwerthfawr i unrhyw faes awyr, yn enwedig meysydd awyr bach, oherwydd gwerth uchel cludo nwyddau. Mae Cymdeithas y Cludwyr Ffyrdd yn datgan y gall maes awyr cymharol fach â chyfleuster cludo nwyddau gynhyrchu cryn dipyn o gyfoeth.<sup>71</sup>

Gallai gweithgarwch cludo nwyddau, o'i ddatblygu'n effeithiol, fod yn fusnes mawr i'r maes awyr ar adeg pan fo elw'n plymio. Byddai hyn yn creu cyfleoedd busnes hyfyw, yn gwella mewnfuddsoddiad gan ddod â'r farchnad gludo nwyddau ryngwladol yn ôl i Gymru. Ar ôl ymgynghori â chynrychiolydd o Gymdeithas y Cludwyr Ffyrdd, roedd hi'n amlwg fod y berthynas rhwng y nwyddau i'w cludo a'r cyrchfannau sydd ar gynnig yn ganolog wrth fynd ati i ddatblygu gweithgarwch cludo nwyddau. Bellach, caiff nwyddau awyr eu cludo'n bennaf yng nghorff awyrennau sydd eisoes yn cludo teithwyr, gan ddibynnu felly ar y llwybrau hedfan a'r cyrchfannau sy'n cael eu cynnig.<sup>72</sup> Nid yw dewis cyfyngedig Caerdydd o lwybrau hedfan ar hyn o bryd yn cymell cwmnïau cludo nwyddau i ddefnyddio Caerdydd pan fo gan feysydd awyr lleol eraill ddewis ehangach o lwybrau hedfan.

Tri chwmni cludo nwyddau sy'n gweithredu o Faes Awyr Caerdydd ar hyn o bryd. Yn 2010, roedd pwysau'r nwyddau a gâi ei gludo wedi disgyn i ddim ond 28 tonn,<sup>73</sup> o gymharu â meysydd awyr fel Manceinion lle caiff 115,000 tonn o nwyddau eu cludo bob blwyddyn.<sup>74</sup> Mae yna farchnad ar gyfer cludo nwyddau yn nalgyrch Caerdydd, ond caiff llawer o'r nwyddau awyr hyn eu cludo i feysydd awyr yn Lloegr am fod eu prisiau'n fwy cystadleuol. Mae cyfleusterau ar gyfer gweithgarwch cludo nwyddau awyr eisoes ar gael ym Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys storffeydd pwrpasol, gweithgarwch 24 awr sy'n bodoli eisoes ac asiantaeth ffiniau ar y safle. Credwn fod capasiti gan

<sup>69</sup> *Ystadegau Trafnidiaeth Cymru*, 2010.

<sup>70</sup> *Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru*, Gorffennaf 2012, t17.

<sup>71</sup> *Ibid*, t16.

<sup>72</sup> *Gwybodaeth gan Gymdeithas y Cludwyr Ffyrdd*, o sgwrs ar 20 Mai 2013.

<sup>73</sup> *Ystadegau Trafnidiaeth Cymru*, 2010.

<sup>74</sup> *Ffigurau Maes Awyr Manceinion*.

Gaerdydd i ddod yn derfynfa gludo nwyddau fyd-eang a rhaid i hyn fod yn ganolog i'r strategaeth ar gyfer twf.

Un broblem fawr o ran gweithgarwch cludo nwyddau awyr ym Maes Awyr Caerdydd yw'r ffaith nad yw'r maes awyr yn cynnig prisiau cystadleuol ac felly mae'n colli masnach i Loegr. I wrthsefyll hyn, byddem yn gweithio gyda'r maes awyr i gyflwyno model busnes effeithiol yn cynnig prisiau a chynigion cystadleuol gyda'r nod o ddenu rhagor o gwmnïau cludo nwyddau ac ymestyn gweithgarwch o'r fath.

Byddem hefyd yn rhoi strwythurau ar waith i ddarparu cyngor busnes i gwmnïau cludo nwyddau lleol allu trafod telerau â Maes Awyr Caerdydd. Pan oedd yn Weinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, dywedodd Carl Sergeant AC wrth y Pwyllgor Menter a Busnes yn y Cynulliad Cenedlaethol ei bod hi'n hysbys fod yna gwmnïau yng Nghymru sydd am ddefnyddio'r maes awyr ar gyfer cludo nwyddau ond nad ydynt yn cael llawer o lwyddiant wrth ddatblygu eu hachos.<sup>75</sup> Er mwyn i Gaerdydd allu cystadlu yn y maes cludo nwyddau byd-eang, rhaid lleoli cwmnïau mawr yn agosach at y maes awyr. Wrth i Faes Awyr Caerdydd ddatblygu yn ôl ein cynllun pum pwynt ar gyfer twf, caiff cwmnïau eu denu i'r ardal, ond yn y tymor byr, mae'n rhaid manteisio i'r eithaf ar fasnachu â busnesau lleol sydd am i'w nwyddau gael eu cludo drwy hedfan.

Byddem yn darparu cymorth a chyngor busnes i gwmnïau er mwyn i'w hachosion busnes fod mor broffidiol ac effeithlon â phosibl. Byddai hyn o fantais i'r cwmnïau dan sylw, a'r maes awyr, yn ogystal â'r gymuned ehangach. Byddai gweithio gyda chwmnïau lleol mewn perthynas â chludo nwyddau yn fanteisiol i economi Cymru, yn lleol ac ar raddfa ehangach. Bydd rhagamcanion cargo awyr y byd yn mwy na dyblu dros yr 20 mlynedd nesaf.<sup>76</sup> Rhaid i Faes Awyr Caerdydd fod yn rhan o hyn.

Yn ogystal â gwella mynediad i weithgarwch cludo nwyddau ar gyfer busnesau rhanbarthol a llai o faint, credwn hefyd fod potensial gan Faes Awyr Caerdydd i fod yn ganolfan ar gyfer cludo nwyddau drwy hedfan i gwmni mwy o faint. Roedd colli TNT yn gostus i'r gweithgarwch cludo nwyddau ym Maes Awyr Caerdydd ac er mwyn i'r gwaith hwn ffynnu, rhaid i Gaerdydd groesawu cwmni mawr arall yn ei le. Mae potensial gan Gaerdydd i fod yn ganolfan ar gyfer cludo

---

<sup>75</sup> *Ibid*, t17.

<sup>76</sup> *Rhagolwg cargo awyr y byd Boeing*, 2012.

nwyddau drwy hedfan ond mae'n rhaid i'r maes awyr gynnig cyfraddau cystadleuol a gwasanaethau nad ydynt i'w cael yn unman arall.

Mae canolfan awyr Frankfurt yn yr Almaen yn enghraifft wych o'r hyn y byddem yn ceisio'i gyflawni yn y tymor hir. Mae gan Faes Awyr Frankfurt Cargo City, canolfan weithgarwch cludo nwyddau sy'n trin dros ddwy filiwn o dunelli o nwyddau bob blwyddyn. Mae wedi'i rhannu'n ardal y Gogledd ac ardal y De, gyda'r Gogledd yn ganolfan ar gyfer gweithgarwch cludo nwyddau Lufthansa.<sup>77</sup> Mae DHL, TNT a FedEx hefyd â'u canolfannau yn Cargo City.

Dylai Maes Awyr Caerdydd efelychu'r math hwn o fodel cludo nwyddau drwy hedfan. Trwy greu cysylltiadau â chwmnïau cludo nwyddau lleol a rhyngwladol a chynnig prisiau cystadleuol a gwasanaeth rhagorol, gall Caerdydd ddatblygu ei weithgarwch. Credwn y gall y Maes Awyr ddatblygu'n ganolfan i fusnes cludo nwyddau mawr a fyddai hefyd yn denu marchnadoedd sy'n datblygu. Er enghraifft, bydd cwmnïau sy'n ehangu yn Asia a De America eisiau datblygu rhwydweithiau cludo nwyddau yn Ewrop. Rhaid i Gaerdydd ddatblygu gweithgarwch cludo nwyddau ar lefel lle gall cystadlu am y mathau hyn o gontractau fod yn realistig.

---

<sup>77</sup> Ffigurau Maes Awyr Frankfurt.



# Casgliad

---

***“Mae gan bob ardal lwyddiannus eu meysydd awyr rhyngwladol: mae twf rhyngwladol yn Ne-ddwyrain Cymru yn galw am faes awyr bywiog”.<sup>78</sup>***

*Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru, 8 Mawrth 2012*

Cred y Ceidwadwyr Cymreig fod maes awyr rhyngwladol ffyniannus yn hanfodol er mwyn i Gymru allu cystadlu ar y llwyfan byd-eang. Fodd bynnag, mae Maes Awyr Caerdydd yn brwydro yn erbyn gostyngiad yn nifer y teithwyr, diffyg dewis o lwybrau hedfan a seilwaith gwael sy'n creu heriau sylweddol.

Credwn fod dirfawr angen i Gymru gael strategaeth eglur a chynhwysfawr ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu strategaeth gydlynus ar gyfer y maes awyr hyd yma, er i'r pryniant ddigwydd ym mis Mawrth 2013. Mae'r ddogfen hon wedi cyflwyno strategaeth ymarferol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd gyda dyheadau hirdymor a chamau gweithredu ar gyfer y tymor byr.

Mae'r ddogfen hon yn darparu strategaeth gadarnhaol a rhagweithiol sy'n tynnu sylw at botensial Maes Awyr Caerdydd i gystadlu ar lwyfan byd-eang. Mae gan y maes awyr sylfeini rhagorol a rhedfa hwy na'r rhan fwyaf o feysydd awyr rhanbarthol yn cynnwys Bryste; hefyd mae ganddo'r gallu i ymestyn y rhedfa heb unrhyw gyfyngiadau ar gapasiti.<sup>79</sup> Rhaid i ni fanteisio ar y cyfle hwn.

Trwy'r penodau hyn rydym wedi amlinellu strategaeth tymor byr i gyflawni'r potensial hwn, a strategaeth hirdymor i roi'r elw a ddaw yn sgil hynny yn ôl ym mhoced y trethdalwyr gan greu gwell seilwaith ar gyfer ardal De Cymru.

---

<sup>78</sup> Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru. Tystiolaeth i'r ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.

<sup>79</sup> Maes Awyr Caerdydd. Tystiolaeth i'r ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.

Amlinellir ein strategaeth tymor byr mewn cynllun pum pwynt ar gyfer twf:

1. **Cynyddu rôl cwmnïau hedfan** - Y cwmnïau hedfan yw'r allwedd i lwyddiant y diwydiant hedfan, nid y maes awyr. Byddai 'Cyfarwyddwr y Cwmnïau Hedfan' yn sicrhau mai cwmnïau hedfan sy'n cael y flaenoriaeth.
2. **Toll Teithwyr Awyr** - Pe bai'r Doll Teithwyr Awyr yn cael ei datganoli, dylid ei defnyddio i wella cystadleurwydd Maes Awyr Caerdydd a denu cwmnïau hedfan newydd.
3. **Marchnata** - Byddai strategaeth farchnata effeithiol a phellgyrhaeddol yn denu marchnadoedd twristiaeth a dewis o lwybrau hedfan newydd gan gynyddu nifer y teithwyr o wledydd fel Tsieina a gwella'r diwydiant twristiaeth ledled Cymru
4. **Seilwaith** - Mae gwelliannau seilwaith tymor byr yn bwysig a byddai gwasanaeth bws rheolaidd o ganol Caerdydd yn cynyddu mynediad ar y ddaear.
5. **Cludo nwyddau** - Rhaid i ni ddatblygu'r uned gweithgarwch cludo nwyddau ym Maes Awyr Caerdydd er budd y maes awyr yn ogystal â busnesau lleol a rhanbarthol.

Bydd y pum pwynt hwn yn sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn fwy effeithiol a phroffidiol ac yn gosod y sylfaen ar gyfer cyfnod o dwf a llwyddiant hirdymor.

Credwn y byddai Maes Awyr Caerdydd yn cynyddu yn ei werth drwy'r strategaeth hon. Mae gan y maes awyr allu i gystadlu â meysydd awyr rhanbarthol eraill a gallai gynnig atebion i broblemau capasiti yn y Ddeddwyrain drwy ddefnyddio'r cysylltiadau trafndiaeth gwell, gan gynnwys trydaneiddio lein reilffordd Llundain i Abertawe.

Bydd y cynnydd yng ngwerth Maes Awyr Caerdydd yn ased i economi Cymru. Ein nod fyddai adennill y buddsoddiad gwreiddiol a wnaed gan drethdalwyr Cymru pan brynodd Llywodraeth Cymru'r maes awyr. Drwy

ein strategaeth hirdymor, byddem yn ceisio gwerthu'r maes awyr i gwmni preifat a defnyddio'r elw fel difidend economaidd i drethdalwyr Cymru.

Un opsiwn posibl fyddai rhannu'r elw a geid o'r gwerthiant gyda'i hanner yn mynd yn ôl i boced y trethdalwr a buddsoddi'r hanner arall yn y seilwaith wyneb o gwmpas y maes awyr.

Drwy gyfuno ein strategaeth hirdymor a'n strategaeth ar gyfer y tymor byr, mae gan Faes Awyr Caerdydd y potensial i fod yn ganolfan i gysylltedd byd-eang. Bydd yn faes awyr y gallwn fod yn falch ohono ac yn un a fydd yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

# Llyfryddiaeth

---

*Comisiwn Meysydd Awyr. Papur Trafod 4: Airport Operational Models, 16 Mai 2013.*

*Cyngor Meysydd Awyr Rhyngwladol. World airport traffic report, 2012.*

*Ffigurau Trenau Arriva Cymru.*

*Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 62115, 6 Chwefror 2013.*

*Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 64576, 22 Ebrill 2013.*

*Ateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad 64693, 10 Mai 2013.*

*Barry, M. A Cardiff City Region Metro, 2013.*

*BBC. Western Gateway planned for Heathrow Hub, 31 Hydref 2012.*

*Rhagolwg cargo awyr y byd Boeing, 2012.*

*Maes Awyr Bryste. Tystiolaeth i'r ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.*

*Ffigurau Maes Awyr Bryste, o sgwrs ar 15 Mai 2013.*

*Awdurdod Hedfan Sifil, Ystadegau Meysydd Awyr, 2008.*

*Awdurdod Hedfan Sifil, Ystadegau Meysydd Awyr, 2012.*

*Awdurdod Hedfan Sifil, Ystadegau meysydd awyr (fffigurau dros dro), 2013.*

*Awdurdod Hedfan Sifil. Asesiadau o bŵer marchnata meysydd awyr, 2012.*

*Maes Awyr Caerdydd. Tystiolaeth i'r ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.*

Ffigurau Maes Awyr Caerdydd, fel ar 21 Mai 2013.

*Y Prif Gynllun - Ymateb Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar ddyfodol y diwydiant awyrennau, 2006.*

*Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Tachwedd 2012.*

*Ffigurau Gweinyddiaeth Ffederal dros Gyllid yr Almaen.*

*Gwybodaeth gan Flybe, o sgwrs ar 3 Mai 2013.*

*Ffigurau Maes Awyr Frankfurt.*

*Cyllid a Thollau EM. Northern Ireland rates, 2013.*

*Gwybodaeth yn sgil Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 62300-62305, 28 Chwefror 2013.*

*Ffigurau Treth a Thollau Iwerddon.*

*Jones, C. The Welsh Tourism Economy in 2011: Summary Results from the Tourism Satellite Account for Wales. Caerdydd: Uned Ymchwil i Economi Cymru, 2012*

*Ffigurau Maes Awyr Manceinion.*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012*

*Ffigurau Network Rail.*

*Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Economic and Fiscal Outlook, 2013.*

*Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Overseas visitors to the UK 2005-12, 2013.*

*Cymdeithas y Cludwyr Ffyrdd, o sgwrs ar 20 Mai 2013.*

*Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru. Tystiolaeth i'r ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, Gorffennaf 2012.*

*UK Airport News. Cardiff Airport road could cost £135m, 16 Awst 2008.*

*Ffigurau Cyngor Bro Morgannwg.*

*Wales Online. Cardiff could be Heathrow's sixth terminal- Sir Howard Davies, 2 Tachwedd 2012.*

*Wales Online. Cardiff Airport passenger numbers would exceed four million by 2030 if long haul APD is abolished, 20 Mai 2013.*

*Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Inward Investment: Volume 1, Ionawr 2012.*

*Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwella Mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Chroes Cwrlwys, 2008.*

*Llywodraeth Cymru. Ardaloedd Menter, 2013.*

*Llywodraeth Cymru. Taith gyntaf gwasanaeth newydd Lufthansa rhwng Dusseldorf a Chaerdydd, 2 Mai 2013.*

*Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, 2010.*

*Llywodraeth Cymru. Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol â Blaenoriaeth, 2011, t5.*

*Ystadegau Trafnidiaeth Cymru, 2010.*

*York Aviation. Economic Impact of Cardiff Airport, 2013.*

*Ffigurau York Aviation, o sgwrs, Mai 2013.*